WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Date issued: 16 June 2017

Gwefannau Cynghorau Cymuned

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r cais am wybodaeth a wnaethoch ar 23 Mai 2017, yn gofyn am wybodaeth ynghylch Gwefannau Cynghorau Cymuned.

Er hwylustod i chi, rydw i wedi cynnwys eich cwestiynau isod cyn amlinellu ein hymateb.

1. pam fod barn Archwilydd Cyffredinol Cymru bellach wedi newid ers y llynedd ?

2. Beth sydd a wnelo BDO â mater sydd ddim yn ymwneud â 'rheolaeth a llywodraethu ariannol priodol'?

3. os nad oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd statudol i blismona Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a oes gan y Cynghorau ddyletswydd statudol i ymateb i ofyn BDO am dystiolaeth?

4. os ydy gwefannau mor bwysig fel ei fod yn destun archwiliad yn 2016-17 pan nad oes unrhyw gyngor wedi dod gerbron llys nac wedi cael eu dirwyio o ystyried nad oes gan nifer o gynghorau wefan?

Hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd wedi'i chofnodi sy'n cael ei sefydlu drwy Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yn hytrach na hawl i gael esboniad. O ran eich cwestiynau uchod, nid ydym yn dal gwybodaeth benodol wedi'i chofnodi o'r fath.

Fodd bynnag, mae rhyddid gan awdurdodau cyhoeddus hefyd i gynnig esboniad. Fel y nodwyd yn flaenorol, yng nghyd-destun Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, does dim dyletswydd statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i fonitro na phlismona cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Mae'r trefniadau statudol ar gyfer archwilio cyrff llywodraeth leol wedi'u nodi yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu fframwaith sicrwydd cyfyngedig er mwyn cynnig lefel o sicrwydd sy'n gymesur â'r symiau o arian cyhoeddus y mae'r cynghorau hynny yn eu rheoli. Mae'r archwiliad sicrwydd cyfyngedig yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n fwyaf cysylltiedig â rheolaeth a llywodraethu ariannol priodol. Yn ddamcaniaethol, gall archwilwyr roi ystyriaeth i ofynion Deddf 2013 i'r graddau eu bod yn gorgyffwrdd â swyddogaethau'r archwilydd fel y'u nodir yn adran 17 Deddf 2004, ond ni fyddai hyn fel arfer yn rhan o'r

archwiliad blynyddol. Mae'r gwaith archwilio sy'n cael ei gynnal yn seiliedig ar asesiad risg, a bydd yn ystyried meysydd allweddol o ran rheolaeth a llywodraethu ariannol.

Lle bo cwmnïau allanol yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal archwiliad allanol o gynghorau cymuned, byddent yn gwneud hynny ar sail dirprwyo dyletswyddau a phwerau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os oes gennych gwestiynau penodol ynghylch archwiliad penodol fe fyddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu'r rhain, ac fe allwn gyfeirio eich ymholiad at y tîm priodol.

Er gwybodaeth i chi, mae'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol hefyd yn cynhyrchu canllawiau, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch gwaith archwilio allanol ar gyfer Cynghorau Cymuned, a allai fod o ddiddordeb.
http://www.slcc.co.uk/bookstore/details/governance-and-accountability-wales-practitioners-guide/44/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd rydw i wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir,